**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref – DB-PO-0363-23

Delyth Jewell AS
Cadeirydd – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Yr Iaith Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
SeneddCulture@senedd.wales

24 Hydref 2023

Annwyl Delyth,

Diolch am eich cefnogaeth neithiwr wrth sicrhau bod cyhoeddiad damweiniol Adroddiad Interim y Strategaeth Ddiwylliannol yn cael ei ddatrys yn gyflym.

Wrth gwrs, rwy'n pryderu bod y camgymeriad hwn wedi digwydd. Mae'n anffodus fod dogfen fewnol na chafodd ei rhannu ymhellach nag aelodau ein Grŵp Llywio cyn hyn bellach yn y parth cyhoeddus. Gall hyn arwain at sgyrsiau anodd gyda'n rhanddeiliaid agosaf gan nad ydynt eto wedi cael cyfle i gynnig sylwadau ar gynnwys y strategaeth.

Wrth symud ymlaen, rwy'n credu ei fod yn well cytuno i fabwysiadu protocol ble rydyn ni ond yn rhannu dogfennau sydd wedi eu cyhoeddi gyda'r Pwyllgor. Rwy'n parhau yn awyddus i gynnal perthynas adaeiladol a chadarnhaol gyda'r Pwyllgor, a gobeithio y bydd ein cyfarfodydd rheolaidd yn darparu cyfle priodol i drafod materion nad ydynt eto yn y parth cyhoeddus.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.